| | |
|---|---|
| GIG CYMRU NHS WALES \| Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales | **Cyfeirnod:** PHW05<br>**Rhif y Fersiwn:** v4<br>**Dyddiad yr adolygiad nesaf:** 25 Mawrth 2024 |

# POLISI SAFONAU YMDDYGIAD

## (yn cynnwys Datgan Buddiannau, Rhoddion, Lletygarwch a Nawdd)

**Datganiad Polisi**

Mae Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo'n gryf i sicrhau bod ICC yn cael ei lywio gan y safonau uchaf o ran bywyd ac ymddygiad cyhoeddus, gan gynnwys didwylledd, gonestrwydd, uniondeb ac atebolrwydd. Mae'r Bwrdd yn disgwyl i bob cyflogai a Chyfarwyddwr Anweithredol gynnal safonau uchel o ymddygiad corfforaethol a phersonol, ar sail y gydnabyddiaeth bod yn rhaid i anghenion Defnyddwyr Gwasanaethau gael blaenoriaeth.

Rhaid i holl gyflogeion a Chyfarwyddwyr Anweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru gynnal y safonau ymddygiad uchaf.

Mae gan ICC bolisi dim goddefgarwch o ran llwgrwobrwyo a llygredd.

Cyfrifoldeb pob cyflogai unigol o fewn ICC yw sicrhau ei fod yn gyfarwydd â gofynion y polisi a'r canllawiau ategol. Bydd perthnasedd y wybodaeth hon yn amrywio gan ddibynnu ar rôl yr unigolyn; gall Ysgrifennydd y Bwrdd ddarparu cyngor penodol os bydd angen.

**Ymrwymiad Polisi**

O dan y polisi hwn, mae'n ofynnol bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amlinellu'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan holl gyflogeion a Chyfarwyddwyr Anweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru, ynghylch buddiannau preifat a'u cysylltiad â'u dyletswyddau gwasanaeth cyhoeddus.

**Amcanion y Polisi**

Amcanion y polisi hwn yw:

- Sicrhau bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn agored, yn dryloyw ac yn onest o ran y ffordd y mae'n cynnal ei fusnes;
- Sicrhau bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn diogelu yn erbyn achosion neu achosion posibl o wrthdaro rhwng buddiannau preifat a dyletswyddau cyhoeddus ei holl gyflogeion a Chyfarwyddwr Anweithredol;
- Darparu gwybodaeth ategol, a chyfeirio'r darllenydd at ganllawiau cysylltiedig, fel bod yr holl gyflogeion a Chyfarwyddwyr Anweithredol yn cael eu cefnogi mewn modd priodol wrth gyflawni'r gofynion;
- Amlinellu'n glir rolau a chyfrifoldebau'r rhai a gyflogir gan y sefydliad;
- Amlinellu'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer sicrhau y gellir gwneud datganiadau, ac arwain yr unigolyn at y broses gywir ar gyfer gwneud datganiad.

**Safonau Ymddygiad:**

Mae'r polisi hwn yn amlinellu egwyddorion yr ymddygiad a ddisgwylir mewn perthynas â:

- derbyn, a rhoi, rhoddion a lletygarwch;

- honoraria a nawdd;
- triniaeth ffafriol mewn trafodion preifat;
- cynlluniau teyrngarwch fel cymhelliad ar gyfer cymryd rhan mewn trafodion busnes;
- Ymgyrchoedd etholiadol a diddordebau gwleidyddol;
- Cyfrinachedd.

**Gweithdrefn Ategol**

Dylid darllen y weithdrefn ategol (y weithdrefn datgan buddiannau, rhoddion, lletygarwch, honoraria a nawdd (PHW-05-tp01) ochr yn ochr â'r polisi hwn.

Mae'r weithdrefn yn sicrhau bod ICC:

- Yn darparu canllawiau ar y trefniadau sydd ar waith ar gyfer sicrhau y gellir gwneud datganiadau, ac yn arwain yr unigolyn at y broses gywir ar gyfer gwneud datganiad;
- Yn darparu dull ar gyfer datgan, cofnodi a monitro buddiannau;
- Yn darparu dull ar gyfer datgan, cofnodi a monitro rhoddion, lletygarwch, honoraria a nawdd;
- Yn darparu dull ar gyfer datgan a chofnodi achosion o noddi digwyddiadau corfforaethol; ac
- Yn sicrhau bod y gofrestr datgan buddiannau yn cael ei diweddaru a'i chyhoeddi'n rheolaidd yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.


**Cwmpas**

Mae'r gofyniad i gydymffurfio â'r weithdrefn hon yn ymestyn i holl gyflogeion Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hyn yn cynnwys:

- Cyfarwyddwyr Anweithredol;
- Y rhai sydd ar secondiad;
- Gweithwyr asiantaeth;
- Y rhai â chytundebau anrhydeddus;
- Y rhai sy'n gweithio mewn cyrff neu gyda chyrff a gynhelir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Cynghorwyr i'r Bwrdd, y Pwyllgorau a chyrff eraill sy'n gwneud penderfyniadau.

At ddibenion y weithdrefn hon, defnyddir y term 'yr holl gyflogeion a Chyfarwyddwyr Anweithredol' i gwmpasu'r rhestr uchod.

**Datganiad y Prif Weithredwr yn erbyn llwgrwobrwyo**




Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru y safonau ymddygiad ac uniondeb uchaf ac mae ganddo bolisi **dim goddefgarwch** o ran llwgrwobrwyo a llygredd.

Mae ***Deddf Llwgrwobrwyo 2010*** yn ei gwneud yn drosedd "rhoi, addo neu gynnig llwgrwobr ac i wneud cais am lwgrwobr, neu i gytuno i dderbyn llwgrwobr gartref neu dramor". Y gosb fwyaf am lwgrwobrwyo yw 10 mlynedd yn y carchar, gyda dirwy ddiderfyn.

Mae'r polisi hwn a'r weithdrefn ategol yn helpu i warchod yn erbyn y 'drosedd gorfforaethol' os yw'r sefydliad wedi methu ag atal llwgrwobrwyo drwy beidio â chael gweithdrefnau ar waith. Gall Iechyd Cyhoeddus Cymru osgoi euogfarn os gall ddangos bod ganddo weithdrefnau o'r fath ar waith.

Nid yw'r 'drosedd gorfforaethol' yn drosedd annibynnol; mae bob tro'n dilyn trosedd o lwgrwobrwyo a/neu lygredd a gyflawnir gan unigolyn sy'n gysylltiedig â'r sefydliad dan sylw.

Nid oes rhaid i lwgrwobrwyo ymwneud ag arian parod neu gyfnewid taliad; gall fod ar sawl ffurf fel rhodd, triniaeth foethus yn ystod taith fusnes neu docynnau i ddigwyddiad.

**Safonau ymddygiad**

Mae'r *Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd* yn berthnasol i'r holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r egwyddorion hyn yn integreiddio'r holl agweddau ar lywodraethu ac yn ymgorffori'r gwerthoedd a'r safonau ymddygiad a ddisgwylir ar bob lefel o wasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

**"Mae gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus ac ymddygiad cysylltiedig wrth wraidd y GIG yng Nghymru, ac mae hynny'n rheidrwydd."**

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo'n gryf i sicrhau bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn seiliedig ar gan werthoedd, sydd wedi'u hymwreiddio yn y *Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus.* Mae'r *Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus,* a elwir hefyd yn *Egwyddorion Nolan*, yn sail i ofynion Safonau Ymddygiad Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer aelodau ei Fwrdd a'i staff.

Mae'r Bwrdd yn disgwyl i'w holl gyflogeion a Chyfarwyddwyr Anweithredol arfer safonau uchel o ymddygiad corfforaethol a phersonol, ar sail y gydnabyddiaeth bod yn rhaid i anghenion Defnyddwyr Gwasanaethau gael blaenoriaeth.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) wedi disgrifio ei weledigaeth sy'n sail i'r ffordd y darperir y gwasanaethau ac, i gefnogi hyn, rhaid i'r holl gyflogeion sicrhau eu bod yn cyflawni eu rolau gydag ymroddiad ac ymrwymiad i ICC a'i werthoedd craidd.

Rhaid i'r holl staff ddilyn y safonau uchaf o ymddygiad corfforaethol a phersonol ac ymddwyn mewn modd rhagorol ar sail y Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Anhunanoldeb** - | Dylai unigolion weithredu er budd y cyhoedd yn unig. Ni ddylent weithredu er mwyn cael elw ariannol neu fuddion eraill iddynt hwy eu hunain, eu teulu neu eu ffrindiau; |
| **Uniondeb** - | Ni ddylai unigolion roi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau allanol a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol; |
| **Gwrthrychedd** - | Wrth gyflawni busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon a buddion, dylid dewis ar sail teilyngdod; |
| **Atebolrwydd** – | Mae unigolion yn atebol am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd o ran y cyhoedd a rhaid iddynt fod yn destun pa bynnag broses graffu sy'n briodol i'w swydd; |
| **Didwylledd** - | Dylai unigolion fod mor agored â phosibl ynghylch yr holl benderfyniadau a wnânt a'r holl gamau y maent yn eu cymryd. Dylent roi rhesymau dros eu penderfyniadau a chyfyngu ar wybodaeth dim ond pan fydd y budd cyhoeddus ehangach yn galw am hynny; |
| **Gonestrwydd –** | Mae dyletswydd ar unigolion i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n gysylltiedig â'u dyletswyddau ac i gymryd camau i ddatrys unrhyw achos o wrthdaro sy'n codi mewn ffordd sy'n diogelu budd y cyhoedd; |
| **Arweinyddiaeth** – | Dylai unigolion hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy arweinyddiaeth ac esiampl. |

Er mwyn cynnal yr egwyddorion hyn, rhaid i chi:-

- Sicrhau bod buddiannau'r cleifion a'r cyhoedd yn parhau i fod o'r pwys mwyaf;
- Bod yn deg a gonest wrth gyflawni eich busnes swyddogol;
- Defnyddio adnoddau'r GIG yn y ffordd orau bosibl ar gyfer y gwasanaeth a'r cleifion, gan geisio sicrhau gwerth am arian bob tro;
- Peidio â chamddefnyddio eich safle swyddogol er budd personol neu fudd eich teulu neu ffrindiau;
- Peidio â cheisio cael mantais neu hyrwyddo busnes preifat neu fuddiannau eraill wrth gyflawni eich dyletswyddau swyddogol;
- Peidio â cheisio neu dderbyn yn fwriadol gyfraddau neu fuddiannau am drafodion preifat gyda chwmnïau, y maent wedi cael, neu gallent gael, cysylltiad swyddogol â nhw ar ran ICC.

Mae'r Polisi Safonau Ymddygiad (PHW-05) a'r Weithdrefn Datgan Buddiannau, Rhoddion, Lletygarwch, Honoraria a Nawdd (PHW-05-TP01) yn amlinellu'r trefniadau o fewn ICC i sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â'r gofynion hyn, gan gynnwys cofnodi a datgan unrhyw achos o wrthdaro buddiannau a sut yr ymdriniwyd ag unrhyw roddion, lletygarwch a nawdd (hyd yn oed os gwrthodir y rhain).

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn gyfarwydd â gofynion y Polisi hwn a'r dogfennau canllaw ategol. Bydd perthnasedd y wybodaeth hon yn dibynnu ar eich rôl o fewn ICC a'ch buddiannau y tu allan i'ch cyflogaeth. Os oes angen rhagor o arweiniad arnoch, cysylltwch ag Ysgrifennydd y Bwrdd.

I grynhoi:-

| | |
|---|---|
| **Dylech:** | Sicrhau nad ydych mewn swydd lle y gallai fod gwrthdaro rhwng eich buddiannau preifat a'ch dyletswyddau yn y GIG. |

| | |
|---|---|
| | Datgan unrhyw fuddiannau perthnasol (darllenwch y Weithdrefn Datgan Buddiannau, rhoddion, lletygarwch, honoraria a nawdd am arweiniad ac enghreifftiau o fuddiannau perthnasol) |
| | Cofio bod yr angen i ddatgan buddiant yn cynnwys buddiannau eich teulu agos a'ch ffrindiau o bosibl. |
| | Ceisio caniatâd eich rheolwr cyn derbyn unrhyw waith allanol, yn unol â thelerau ac amodau eich cyflogaeth. |
| | Ceisio caniatâd eich Cyfarwyddwr Gweithredol cyn derbyn unrhyw nawdd neu letygarwch masnachol. |
| | Datgan cynigion o roddion, lletygarwch neu nawdd gan ddefnyddio'r ffurflen briodol lle bo angen. |
| | |

| | |
|---|---|
| **Ni ddylech:** | Dderbyn unrhyw roddion gan gyflenwyr neu sefydliadau masnachol oni bai bod gwerth isel iddynt e.e. ysgrifbinnau, dyddiaduron; |
| | Derbyn unrhyw roddion sy'n werth dros £25 gan gleifion neu eu perthnasau; dylid gwrthod y rhain yn gwrtais; |
| | Derbyn unrhyw letygarwch neu nawdd amhriodol gan gyflenwyr neu sefydliadau masnachol; |
| | Camddefnyddio eich safle i gael cyfraddau ffafriol ar gyfer bargeinion preifat; |
| | Rhoi mantais annheg i un ymgeisydd dros un arall neu ddangos ffafriaeth yn eich ymwneud â sefydliadau masnachol; |
| | Defnyddio adnoddau'r GIG at eich defnydd preifat eich hunan. |

**Datgan Buddiannau**

Mae'r polisi hwn yn cynnwys datgan buddiannau, rhoddion, lletygarwch, honoraria a nawdd. Mae'r buddiannau y dylid eu datgan yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| **Buddiannau ariannol** | Lle y gallai unigolyn gael budd ariannol uniongyrchol yn sgil canlyniadau penderfyniad y mae'n ymwneud ag ef. |
| **Buddiannau proffesiynol anariannol** | Lle y gallai unigolyn gael budd proffesiynol anariannol yn sgil canlyniadau penderfyniad y mae'n ymwneud ag ef, fel gwella ei enw da proffesiynol neu hyrwyddo ei yrfa broffesiynol. |
| **Buddiannau personol anariannol**: | Lle y gallai unigolyn gael budd personol mewn ffyrdd nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'i yrfa broffesiynol ac nad ydynt yn arwain at fudd ariannol uniongyrchol, oherwydd penderfyniadau y mae'n ymwneud â nhw yn ei yrfa broffesiynol. |
| **Buddiannau anuniongyrchol:** | Lle y mae gan unigolyn gysylltiad agos ag unigolyn arall sydd â budd ariannol, budd proffesiynol anariannol neu fudd personol anariannol a gallai elwa ar benderfyniad y maent yn ymwneud ag ef. |

Gall buddiant fod yn berthnasol hefyd at ddibenion y polisi hwn os oes buddiant "canfyddedig".

Dylid datgan buddiant os oes gan aelod agos o'r teulu unrhyw rai o'r datganiadau uchod.

Nid yw'r polisi hwn yn cwmpasu prosiectau ymchwil a datblygu gan gwmnïau masnachol. Rhaid i'r holl waith ymchwil a noddir gan gwmnïau masnachol, gan gynnwys y diwydiant fferyllol, gael ei asesu drwy broses fewnol Iechyd Cyhoeddus Cymru i gymeradwyo gwaith ymchwil a datblygu a phroses gymeradwyo'r GIG fel sy'n briodol.

Mae **rhoddion, lletygarwch a nawdd** wedi'u diffinio isod:

- Mae **rhodd** yn eitem o werth, a roddwyd gan drydydd parti. Mae enghreifftiau o roddion yn cynnwys talebau, arian, gwobrau mewn cystadleuaeth a raffl mewn digwyddiadau noddedig ac unrhyw eitem arall o werth.
- Mae **lletygarwch** yn cael ei ddiffinio fel darparu diodydd, prydau, llety, trafnidiaeth, adloniant (h.y. gwahoddiad neu docyn i ddigwyddiad chwaraeon neu'r theatr) neu fynediad i ddigwyddiad neu gynhadledd, ni waeth a ydynt yn cael eu darparu yn ystod oriau gwaith arferol neu'r tu allan iddynt.
- Mae **nawdd** yn gynnig ar ffurf cyllid i unigolyn, tîm neu Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ffynhonnell allanol, boed ar ffurf arian, nwyddau, gwasanaethau neu fuddiannau. Gallai gynnwys cynnig i noddi swydd ymchwil neu weithredol, hyfforddiant staff, presenoldeb mewn cynhadledd, y costau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd, cynadleddau neu ymweliad gwaith. Gall y nawdd gwmpasu cyfran o'r costau neu'r holl gostau.

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn a bydd yn rhaid ystyried cynigion o fuddion, nwyddau neu wasanaethau eraill fesul achos.

**Etholiadau**

Mae disgwyl i gyflogeion Iechyd Cyhoeddus Cymru lynu at yr egwyddorion a nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru i gyflogeion y GIG ynghylch eu rôl a'u hymddygiad yn ystod ymgyrchoedd etholiadol. Mae'r egwyddorion a nodir yn y canllawiau hyn yn berthnasol i'r GIG ar bob achlysur, ond dylid rhoi sylw penodol iddynt yn y cyfnod rhwng dechrau'r ymgyrchoedd ffurfiol a'r diwrnod pleidleisio.

Yr egwyddorion cyffredinol y dylid glynu atynt yn ystod cyfnod etholiad yw, fel ar bob achlysur arall, na ddylai staff y GIG gymryd rhan mewn gweithgareddau a allai arwain at feirniadaeth bod unigolion a delir o gronfeydd cyhoeddus yn cael eu defnyddio at ddibenion gwleidyddiaeth, neu sy'n tynnu sylw heb fod angen at ymgyrchoedd etholiadol.

Rhaid i bob cyflogai a Chyfarwyddwr Anweithredol ddilyn y canllawiau hyn:

- Nid oes gan y GIG a'i gyrff cyfansoddol unrhyw ymlyniad at unrhyw blaid wleidyddol. Ni ddylai cyflogai neu Gyfarwyddwr Anweithredol ddweud na gwneud unrhyw beth yn rhinwedd ei swydd sy'n awgrymu fel arall.
- Ni ddylai cyflogeion a Chyfarwyddwyr Anweithredol y GIG gymryd rhan mewn gweithgareddau a allai arwain at feirniadaeth bod pobl sy'n cael eu talu o gronfeydd cyhoeddus yn cael eu defnyddio at ddibenion gwleidyddiaeth.
- Ni chaiff unrhyw ymgeiswyr a/neu lefarwyr pleidiau gwleidyddol ymweld ag adeiladau ICC at ddibenion canfasio personol. Ni ddylai pleidiau gwleidyddol gynnal cyfarfodydd ar safleoedd y GIG yn ystod y cyfnod cyn etholiad.
- Ni ddylid arddangos posteri gwleidyddol mewn mannau cyhoeddus yn eiddo'r GIG. Dylid craffu ar bosteri a deunydd hysbysebu arall sy'n honni eu bod yn anwleidyddol ac a gyhoeddir gan grwpiau eraill yn ofalus i sicrhau na ellir ystyried eu bod yn ffafrio neu'n gwrthwynebu ymgeisydd neu blaid benodol.

- Gall ymgyrchoedd hybu iechyd presennol barhau, ond dylid gohirio unrhyw ymgyrchoedd newydd a phob cyhoeddusrwydd proffil uchel (ymgyrchoedd post, gosod posteri a hysbysebu ar raddfa fawr) tan ar ôl yr etholiadau.
- Mae'r cyfryngau cymdeithasol ac electronig wedi dod yn fwy pwysig i wleidyddion a sefydliadau gwleidyddol yn ystod y cyfnod cyn etholiad a dylai'r staff gydymffurfio â'r canllawiau presennol mewn perthynas â'u defnyddio mewn capasiti proffesiynol a phersonol.
- Dylai'r holl ymholiadau gan bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr gael eu cyfeirio at Swyddfa'r Prif Weithredwr a dylid ymdrin â nhw mewn modd cytbwys.
- Dylid cyfeirio'r holl ymholiadau gan y cyfryngau at y Tîm Cyfathrebu;
- Caniateir cynnal cyfarfodydd arferol Bwrdd ICC, a fyddai'n cael eu cynnal yn gyhoeddus fel arfer, yn y cyfnodau cyn etholiad. Nid oes angen dileu neu ohirio unrhyw ddarlithoedd cyhoeddus a draddodir at ddibenion addysgol gan gyflogeion ICC ar faterion iechyd, ond dylid osgoi trafodaeth neu ddamcaniaethu ynghylch canlyniad yr etholiad ac unrhyw effaith y gallai hynny ei chael ar bolisi iechyd y llywodraeth.
- Mae hawl gan gyflogeion y GIG, yn eu bywydau preifat, i gymryd rhan mewn trafodaeth gyhoeddus neu i wneud sylwadau cyhoeddus yn ystod cyfnod yr etholiad. Fodd bynnag, ni ddylent ddefnyddio eiddo na chyfarpar y GIG ac ni ddylent wneud sylwadau ar sail gwybodaeth nad yw ar gael yn gyffredinol i'r cyhoedd. Rhaid datgan yn glir mai barn yr unigolyn yw'r hyn a ddywedir ac nid ICC. Yn dibynnu ar natur eich rôl, mae'n bosibl y byddech yn dymuno ystyried yn ofalus a ddylech gyfleu eich ymlyniadau gwleidyddol.

Mae copi llawn o ddogfen ganllaw Llywodraeth Cymru ar ymddygiad yn ystod ymgyrchoedd etholiadol (Cylchlythyr Iechyd Cymru WHC (2019) 036) ar gael drwy ddilyn y ddolen a ganlyn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-11/etholiad-cyffredinol-y-du-2019-canllawiau-ar-gyfer-gig-cymru%23.pdf

**CYFRINACHEDD**

Fel y nodir yn nisgrifiadau swydd y cyflogeion, mae'n bosibl y bydd gan gyflogeion fynediad at wybodaeth gyfrinachol ynglŷn â chleifion, staff a busnes y gwasanaeth iechyd. Ni ddylid datgelu gwybodaeth o'r fath i unrhyw un nad oes ganddo'r awdurdod i'w derbyn, ar unrhyw gyfrif. Rhaid cadw cyfrinachedd gwybodaeth ar bob achlysur, p'un a ydych yn y gwaith ai peidio.

Ystyrir torri cyfrinachedd yn y fath fodd yn drosedd ddisgyblu ddifrifol, a allai fod yn destun diswyddo a/neu erlyniad o dan y ddeddfwriaeth statudol bresennol (Deddf Diogelu Data/Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (2016) neu unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol i'r un perwyl) a'r Polisi Disgyblu. Gall unrhyw achos o dorri cyfrinachedd arwain at gamau disgyblu a gellid ei ystyried fel camymddwyn difrifol a fyddai'n cyfiawnhau diswyddiad diannod.

Os yw cyflogeion yn ansicr ynghylch defnyddio neu rannu gwybodaeth bersonol adnabyddadwy am glaf, dylid gofyn am gyngor gan Warcheidwad Caldicott ICC.

**Gweithdrefnau Ategol a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig**

Bydd y polisi hwn yn cael ei gefnogi gan y *Weithdrefn Datgan Buddiannau, Rhoddion, Lletygarwch a Nawdd*. Mae'r weithdrefn yn darparu fframwaith i sicrhau na ddylai fod unrhyw wrthdaro neu wrthdaro posibl rhwng buddiannau preifat a dyletswyddau cyhoeddus yr holl gyflogeion a Chyfarwyddwyr Anweithredol.

Mae'n amlinellu'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan yr holl gyflogeion a Chyfarwyddwyr Anweithredol, ynghylch buddiannau preifat o ran eu hymwneud a'u cysylltiad â'u

dyletswyddau gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r weithdrefn hefyd yn darparu dulliau ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru a chanllawiau ar gyfer staff mewn perthynas â datgan, cofnodi a monitro buddiannau, rhoddion, lletygarwch a nawdd.

Dylid darllen y polisi hwn hefyd ar y cyd â'r dogfennau a ganlyn:

- *Polisi Ymdrin â Phryderon, Cwynion a Honiadau (Gweithio i Wella)*
- *Polisi Gwrth-dwyll*
- *Polisi a Gweithdrefn Disgyblu*
- *Trefn Codi Pryder ar gyfer Staff y GIG*
- *Rheolau Sefydlog Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chadw a Dirprwyo Pŵer*
- *Cyfarwyddiadau Cyllid Sefydlog*
- *Ymddygiad y Bwrdd*

Mae polisïau pobl perthnasol eraill gan Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n darparu ar gyfer dileu achosion o wrthdaro rhwng buddiannau mewn sefyllfaoedd eraill e.e. canllawiau ar gyfer paneli penodi.

Cyfeirir at yr angen i sefydlu a chynnal proses ar gyfer datgan buddiannau, rhoddion, lletygarwch, honoraria a nawdd yn y canllawiau a'r ddeddfwriaeth a ganlyn:

- *Deddf Llwgrwobrwyo 2010*
- *Safonau Ymddygiad Busnes (DGM(93)84) a'r Cod Ymddygiad ac Atebolrwydd WHC(2006)90*
- *Y GIG a Nawdd gan y Diwydiant Fferyllol WHC (2005) 016*
- *Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009*
- *Deddf Cydraddoldeb 2010*
- *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, 2016*
- *Rheolau Sefydlog Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chadw a Dirprwyo Pŵer*
- *Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain (ABPI) (2016) Cod Ymarfer ar gyfer y Diwydiant Fferyllol*

Datblygwyd y polisi hwn a'r weithdrefn ategol yn unol â'r gofynion uchod.

| | |
|---|---|
| **Asesiad Cydraddoldeb a'r Effaith ar Iechyd** | Asesiad Cydraddoldeb a'r Effaith ar Iechyd wedi'i gynnal. Y ddogfen ar gael ar dudalennau polisïau'r wefan. |
| **Cymeradwywyd gan** | Y Bwrdd |
| **Dyddiad Cymeradwyo** | 25 Mawrth 2021 |
| **Dyddiad Adolygu** | 25 Mawrth 2024 |
| **Dyddiad Cyhoeddi:** | 26 Mawrth 2021 |
| **Grŵp gyda'r awdurdod i gymeradwyo'r gweithdrefnau ategol** | Y Bwrdd |
| **Arweinydd Gweithredol Atebol** | **Helen Bushell**<br>Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| **Awdur** | **Liz Blayney**<br>Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd |

**Ymwadiad**

**Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi mynd heibio, gwnewch yn siŵr mai'r fersiwn rydych yn ei defnyddio yw'r un ddiweddaraf naill ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu Uned Fusnes y Bwrdd**

| Crynodeb o'r adolygiadau/gwelliannau | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif y fersiwn** | **Dyddiad yr adolygiad** | **Dyddiad cymeradwyo** | **Dyddiad cyhoeddi** | **Crynodeb o'r Gwelliannau** |
| 1 | Ddim yn berthnasol | 17 Hydref 2011 | 17 Hydref 2011 | Polisi newydd |
| 2 | Ionawr 2017 | 26 Ionawr 2017 | 26 Ionawr 2017 | Mae cyfeiriad Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i ddiweddaru o 14 Heol y Gadeirlan i Capital Quarter 2.<br>Y cyfeiriad at y polisi chwythu'r chwiban ym mharagraff 1 wedi'i ddiwygio i 'Trefn Codi Pryder ar gyfer Staff y GIG'.<br>Brawddeg wedi'i hychwanegu at baragraff 5.4 i bwysleisio'r angen i ddatgan, hyd yn oed os oes amheuaeth.<br>Cyfeiriad at Swyddog AD wedi'i ddiwygio i Bartner Busnes AD yn adran 6.2.<br>'aelodau o'r Tîm Gweithredol' wedi'i ychwanegu at baragraff 6.3.2<br>Cyfeiriad at 'e-fwletin staff' wedi'i newid i 'newyddion staff' ym mharagraff 10. |
| 3 | Awst 2017 | 30 Tachwedd 2017 | 19 Rhagfyr 2017 | Gwnaed gwelliannau helaeth i'r polisi. Nodwyd datganiad polisi lefel uchel. Mae'r wybodaeth a'r canllawiau manwl, a ymddangosodd yn y polisi gwreiddiol, wedi symud i weithdrefn ategol fanylach.<br>Mae'r gwelliannau a awgrymwyd a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad wedi'u cynnwys. |
| 3 | Medi 2019 | | | Dolenni'r wefan wedi'u diweddaru |
| 4 | Hydref 2020 | | | Gwnaed diwygiadau mawr i'r polisi Datgan Buddiannau, er mwyn ehangu'r cylch gwaith fel ei fod yn bolisi safonau ymddygiad. Y prif ychwanegiadau o ganlyniad i hyn yw cynnwys etholiadau a chyfrinachedd fel cydrannau o'r polisi hwn. |